CYNGOR TREF Y
RHYL
TOWN COUNCIL

**Town Mayor / Maer y Dref: Councillor / Cynghorydd Mr Alexander Walker**

**Town Clerk / Clerc y Dref: Mrs Helen J Mead**

**Date / Dyddiad: 22/12/25**

**Neges y Nadolig gan Faer y Rhyl, y Cynghorydd Alexander Walker**

**Cnoi cil**

Wrth i mi eistedd i lawr i ysgrifennu fy nghardiau Nadolig eleni, meddyliais am y traddodiad hirhoedlog hwn a sut y dechreuodd. Rydym ni wedi bod yn anfon cardiau i ddymuno'r hwyl yr ŵyl i'n hanwyliaid a'n ffrindiau a'n teulu, ymhell ac agos, ers blynyddoedd lawer.

Yn yr 1800au, ymhell cyn cyfnod ffonau symudol a WhatsApp, roedd addysgwr blaenllaw a phoblogaidd, Henry Cole, eisiau modd o ddymuno Nadolig Llawen i'w lu o ffrindiau heb orfod ysgrifennu llythyr unigol at bob un ohonyn nhw. Cafodd y syniad o argraffu dyluniad ar gerdyn ynghyd â neges wedi'i argraffu y tu mewn. Y cyfan roedd rhaid i Henry ei wneud oedd ysgrifennu '*I…*' a dyna sut y lluniwyd y cerdyn Nadolig cyntaf.

Mae pethau wedi datblygu'n sylweddol ers dyddiau Henry, ac mae'r arfer o anfon cardiau Nadolig wedi prinhau, o gofio bod cymaint o ffyrdd eraill o ddymuno Nadolig Llawen i'n gilydd, fel trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn gyffredinol mae meiri tref yn anfon cerdyn Nadolig at yr amrywiaeth o sefydliadau, unigolion, cydweithwyr a phwysigion maen nhw'n eu cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Mae Maer y Rhyl wedi gwneud yr un modd yn draddodiadol. Ond eleni, rydym ni wedi penderfynu gwneud rhywbeth gwahanol.

Roedd meddylfryd Henry yn wych. Ond rydym ni mewn cyfnod gwahanol. A gall digwyddiadau fel y Nadolig amrywio yn ei effaith o unigolyn i unigolyn – gall dathliadau un achosi pryder i un arall, a chreu baich ariannol ychwanegol.

Gan fod y Nadolig yn amser i roi, yn hytrach nag anfon cardiau ffurfiol drwy'r post, byddwn yn anfon cerdyn digidol ac yn rhoi cyfraniad i Fanc Bwyd Canolfan y Foryd eleni. Rwy'n gwneud hyn ar ran y Cyngor Tref yn y gobaith y bydd rhagor o bobl yn medru cael pecyn bwyd a mwynhau cinio Nadolig gyda'i gilydd heb y pryder ychwanegol.

Er na fydd cerdyn swyddogol yn dod trwy'r blwch post, mae'r dymuniadau'r un mor ddiffuant. Lle bynnag y byddwch chi'n treulio cyfnod y Nadolig a phwy bynnag rydych chi yn eu cwmni, mae'r Cyngor Tref yn dymuno cyfnod hapus a heddychlon i chi.

Gyda dymuniadau gorau.

CIVIC OFFICES,
WELLINGTON COMMUNITY CENTRE,
WELLINGTON ROAD, RHYL, DENBIGHSHIRE,
LL18 1LE.

SWYDDFEYDD DINESIG,
CANOLFAN GYMUNED WELLINGTON,
FFORDD WELLINGTON, Y RHYL, SIR DDINBYCH,
LL18 1LE.

TEL / FFÔN: (01745) 331 114 / / 07743 969555
E-MAIL / E-BOST: rachael.wheatley@rhyltowncouncil.org.uk
WEBSITE / GWENFAN: www.rhyltowncouncil.org.uk

Correspondence is welcome in either Welsh or English
Mae croeso I chi gysylltu â'r Cyngor yn Gymraeg neu yn Saesneg